

Adroddiad Grŵp Cyflawni BGC

Paratowyd gan: Teleri Elias

Nod Cynllun Llesiant	Bydd pob Grŵp Cyflawni seiliedig ar le yn anelu at fynd i'r afael â'r nodau llesiant fel yr amlinellir yng Nghynllun Llesiant Lleol Ceredigion. Bydd fframwaith darparu seiliedig ar le yn blaenoriaethu integreiddio a chyfrannu ar gyfer cydnerthedd cymunedau ac unigolion.
Ein Gwerthoedd	Y Gymraeg, Taclo Anghydraddoldeb, Cymryd Rhan, Cynaliadwyedd, Arwain drwy Esiampol
Enw'r Grŵp Prosiect	Llesiant Llanbedr Pont Steffan
Cadair Is - Gadeirydd	Greg Jones , Cyngor Sir Ceredigion Gwilym Dyfri Jones, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant

Aelodaeth y Grŵp Prosiect *(Yr enwau mewn print trwm oedd yn bresennol yn y cyfarfod)*

Cyngor Sir Ceredigion	Y Cynghorydd Ann Bowen Morgan, Bethan James, Carwyn Young, Cathryn Morgan , Catrin Evans, Connor Cook, Dai Jones , Eirlys Lloyd, Elen James, Joy Lake, Rachel Auckland, Rhiannon John, Rhidian Harries, Rob Starr, Sarah Evans, Sian Salcombe, Steffan Rees, Tesni Woodfall, Laurie Hughes, Iwan Davies <u>Tîm Cefnogi'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus: Timothy Bray, Sara Dafydd, Teleri Elias</u> , Lynne Walters, Anwen Thomas	Gwasanaeth Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru	Wayne Thomas , Hannah Lodder-Rodda
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda	Jina Hawkes, Peter Skitt, Terri-Ann Patrick , Nathan Davies, Dr Phil Kloer,	Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant	Emyr Jones, Hazel Thomas, Laura Cait

	Trina Nealon, Robert Allen, Geinor Jones, Rhian Rees, Beth Cossins, Jan Batty		Driscoll , Catrin Morgan-Jones
Heddlu Dyfed-Powys	Yr Arolygydd Matthew Howells	Cyfoeth Naturiol Cymru	Aled Davies
Barcud	Catrin Owen, Sian Lewis	CAVO	Hazel Lloyd-Lubran, Teleri Davies, Chesca Ross
Home-Start	Sharon Morris	Ysgol Bro Pedr	Ffion Davies
Banc Bwyd Llanbedr Pont Steffan	Julia Lim	Canolfan Teulu Llanbedr Pont Steffan	Elin Miles, Jen Leigh
Arts4Wellbeing	Mike Hotson, Sara Wentworth	Tai Wales & West	Rhiannon Ling
Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru	Vikki Butler, Mererid Lewis	Area 43	Becca Head
Cyngor Tref Llanbedr Pont Steffan	Y Cynghorydd Elen Page	Stage Goats	Tracey O'Grady
Iechyd a Gofal Gwledig Cymru	Mari Lewis		

CRYNODEB O GYFARFOD Y GRŴP PROSIECT

Pwyntiau Allweddol a drafodwyd yng nghyfarfod y Grŵp Prosiect: 17.10.24

12.1 Sesiwn Gweithdy Dull Systemau Cyfan Rhanbarthol i Bwysau Iach – Tîm Iechyd Cyhoeddus Hywel Dda

Dyrannwyd y rhan fwyaf o'r sesiwn ar gyfer gweithdy a gynhaliwyd gan Dîm Iechyd y Cyhoedd ar y Dull Systemau Cyfan Rhanbarthol (DSC) i Bwysau Iach. Mae'r Dull System Gyfan yn annog ffordd wahanol o feddwl a gweithio gan weld y system yn ei chyfanrwydd. Trwy ddeall sut mae'r system yn gweithredu, a'r gwahanol elfennau ohoni, y nod yw adnabod y cyfleoedd gorau am newid a dod i gytundeb ynghylch sut y gellir cyflawni awyrgylch o bwysau iach trwy weithio a gweithredu'n wahanol. I wneud hyn, mae Tîm DSC yn ceisio dod â phartneriaid ynghyd sydd â rôl a diddordeb yn y gwaith hwn, gan gynnwys y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, Awdurdodau Lleol, y Trydydd Sector, a chymunedau.

Gan adeiladu ar ganfyddiadau'r gweithdai Mapio System gyfranogol a gynhaliwyd yng Ngwanwyn 2023 a oedd yn ceisio cael gwell dealltwriaeth o achosion pwysau gormodol a'n system leol, rhoddwyd cyfle i'r Grŵp Cyflawni flaenoriaethu wyth amcan a ddaeth i'r amlwg fel pynciau blaenoriaeth a meysydd ffocws. Bydd y canlyniadau, gan gynnwys unrhyw themâu sy'n dod i'r amlwg, yn cael eu cyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) ar 2 Rhagfyr. Yn dilyn y sesiynau gweithdy, mae Tîm DSC yn bwriadu parhau i gydweithio â'r BGC, gyda chynlluniau i ymgysylltu â'r gymuned a nodi asedau lleol.

12.2 Cofnodion a materion yn codi o'r cyfarfod blaenorol:

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 09.07.24 fel cofnod cywir o'r trafodaethau. Cytunwyd bod y camau a gofnodwyd yn y cyfarfod blaenorol naill ai wedi'u cynnwys ar yr agenda, neu eu trosglwyddo i'r cyfarfod nesaf.

- Gwahoddwch Rob Starr i gyfarfod yn y dyfodol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am Adroddiad Tlodi ac Amddifadedd Llambod.
Parhau: Y gobaith yw y gellir cynnwys hyn ar yr agenda ar gyfer cyfarfod mis Ionawr.
- Dyddiadau Sioe Iechyd a Lles Llanbedr Pont Steffan 2024 i'w rhannu gyda'r grŵp unwaith y cadarnhawyd.
Parhau: Mae hyn yn dal i gael ei drafod - Y gobaith yw y bydd modd cynnal y digwyddiad yn ystod mis Chwefror 2025.
- Diweddariad ysgrifenedig i'w ddsbarthu i'r grŵp yn dilyn cyfarfod y Bartneriaeth Bwyd Lleol.
Gweithred: Gwahodd Ann Owen i'r cyfarfod nesaf i ddarparu diweddariad.

Nodwyd ymddiheuriadau'r canlynol: Teleri Davies, Sarah Evans, Rhidian Harries, Gethin Jones, Joy Lake, Robert Allen, Mari Lewis, Sandra Mitchell, Jina Hawkes, Sharon Morris, Gwilym Dyfri Jones.

12.3 Eitem sefydlog: Adborth o gyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (16.09.24)

Cadarnhaodd Timothy Bray (TB) fod Adroddiad Blynyddol Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion ar gyfer 2023-2024 bellach wedi'i gyhoeddi, a'i uwchlwytho ar [wefan Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion](#). Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), mae copïau hefyd wedi'u hanfon i'r canlynol:

- Gweinidogion Cymru
- Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

- Archwilydd Cyffredinol Cymru
- Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu Cyngor Sir Ceredigion

Nododd TB fod sesiwn chwyddwydr y BGC ym mis Medi wedi'i chyflwyno gan Melanie Walters (*Cydlynedd Gofalwyr a Datblygu Cymunedol Gogledd Ceredigion, Cyngor Sir Ceredigion*) ar Geredigion sy'n Oed Gyfeillgar. Bydd y sesiwn sbotolau yng nghyfarfod mis Rhagfyr yn canolbwyntio ar y DSC i Bwysau Iach a Theithio Llesol.

Cadarnhaodd TB y bydd Gillian Perry, Cadeirydd y Grŵp Cyflenwi Hinsawdd a Natur, yn gadael ei rôl gyda Chyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ddiwedd mis Hydref. Gyda hyn mewn golwg, penderfynwyd atal yr Asesiad Newid Hinsawdd a Risg dros dro (ANHR) tan y flwyddyn newydd, pan ddewisir Cadeirydd newydd ac adnoddau o fewn CNC i gefnogi'r darn o waith.

12.4 Lefel Isel o Gymorth Iechyd i Bobl Ifanc Trawsryweddol

Rhoddodd Cathryn Morgan (CM) grynodedb o Fforwm Rhanddeiliaid LHDTTC+ Ceredigion a ffurfiwyd yn ddiweddar. Nododd CM fod digwyddiad cymdeithasol yn cael ei drefnu ym mis Tachwedd yn Aberystwyth, gyda'r gobaith o gynnal digwyddiad tebyg yn Llanbedr Pont Steffan yn dilyn hyn. Eglurodd CM, yn ystod eu cyfarfod diweddaraf, yr amlygwyd consyrn fod y lefel isel o gefnogaeth iechyd i bobl drawsryweddol ifanc yng Ngheredigion. Gofynnodd CM a oedd y rhai yn bresennol yn ymwybodol o unrhyw gefnogaeth neu ymyrraeth eisoes yn ei le y gellid adrodd nol i'r Fforwm yn eu cyfarfod nesaf. Cadarnhaodd Laurie Hughes (LH) bod cymorth cwnsela yn cael ei gynnig i ddisgyblion mewn ysgolion, ac awgrymodd DJ fod y mater wedi ei godi yn y Fforwm Darparwyr Plant a Phobl Ifanc hefyd. Nododd CM hefyd fod 2 ddigwyddiad Troseddau Casineb a ddigwyddodd yn ystod sesiwn Grŵp Rhedeg Aberystwyth wedi eu nodi yn y cyfarfod. Adroddwyd am hyn hefyd yn y cyfarfodydd Monitro Tensiwn wythnosol dilynol, lle darparwyd manylion cyswllt ar gyfer Cymorth i Ddiodefwrwr a Swyddogion Heddlu Troseddau Casineb Lleol.

Cam Gweithredu: Cynnwys Lefel Isel o Gymorth Iechyd i Bobl Ifanc Trawsryweddol fel eitem ar yr Agenda yng nghyfarfod nesaf y Fforwm Darparwyr Plant a Phobl Ifanc.

12.5 Eitem Sefydlog: Prosiect Ieuenctid Llambod – Diweddariad Grŵp Llywio

Rhoddodd David Jones (DJ) y wybodaeth ddiweddaraf am weithgaredd Grŵp Llywio Prosiect Ieuenctid Llambod, a gyfarfu ar 18 Medi. Ar hyn o bryd mae'r Grŵp Llywio yn gweithio trwy'r argymhellion a amlinellir yn yr astudiaeth ddichonoldeb a gynhaliwyd gan Laura Cait Driscoll (LCD). Aeth Dr Mz Prosiect Ieuenctid Caerfyrddin i'r cyfarfod i roi trosolwg o'u gwaith, ac i rannu arfer da a dysgu. Rhoddwyd diweddariadau hefyd ar gynnydd 'Feelz on Wheels', a fydd yng Nghampws Llambod Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi

Sant (PCYDDS) ar ddydd Sadwrn am 12 wythnos, a gan Wasanaeth Ieuenctid Cyngor Sir Ceredigion (CSC) a gynhaliodd nifer o ddiwrnodau gweithgaredd a phreswyl dros yr haf. Mae trafodaethau wedi dechrau gydag Ysgol Bro Pedr ynghylch cyflwyno nodau'r Grŵp Llywio i'r Cyngor Ysgol a chasglu syniadau a barn pobl ifanc lleol er mwyn creu Proffil Cymunedol. Mae'r cyfarfod nesaf wedi'i drefnu ar gyfer 6 Tachwedd.

Atgyfnerthodd LCD a'r Cynghorydd Ann Bowen Morgan (ABM) yr angen am ddarpariaeth ieuenctid yn y dref, gan fod nifer o bryderon ynghylch ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi'u codi yn ystod y misoedd diwethaf.

12.6 Eitem Sefydlog: Model Cymdeithasol ar gyfer lechyd a Lles – Creu Newid Gyda'n Gilydd yng Ngheredigion

Rhoddodd Rhian Rees (RhR) gyflwyniad ar y Model Cymdeithasol ar gyfer lechyd a Lles (MCILI). Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (HDdUHB) wedi ymrwymo i'r MCILI, ac yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae rhaglen waith wedi'i chynnal i ystyried sut y gall HDdUHB symud o Fodel Meddygol tuag at MCILI. Mae hyn yn cynnwys tri darn o waith cysylltiedig:

- Adolygiad llenyddiaeth a gynhaliwyd gan Brifysgol Aberystwyth a gynlluniwyd i ddiffinio'r MCILI, a nodi enghreifftiau o sefydliadau sydd wedi ei weithredu'n llwyddiannus.
- Cyfweiliadau arbenigol (Sgyrsiau â Phwrpas) gyda'r nod o ddeall y model cymdeithasol, ei rinweddau a'i ystyriaethau allweddol ynghylch ei weithredu.
- Fel rhan o arolwg Iechyd Cyhoeddus ehangach, gofyn cwestiwn i bennu dealltwriaeth y cyhoedd o bwysigrwydd symud tuag at MCILI.

Nododd gwaith triongli a wnaed feysydd ffocws eang i gefnogi symud tuag at MCILI – Un ohonynt oedd sefydlu Grŵp Llywio i ystyried sut mae'r MCILI yn cael ei weithredu ar draws y rhanbarth. Hyd yma, mae'r Grŵp Llywio wedi canolbwyntio ar gwblhau diffiniad y MCILI, ac wedi nodi 8 egwyddor. Mae Grŵp Gorchwyl a Gorffen hefyd wedi'i sefydlu i hwyluso ymgorffori'r egwyddorion ffyrdd o weithio. Y camau nesaf ar gyfer y Grŵp Llywio fydd cynhyrchu cyfres o ddeunyddiau, gan gynnwys logo, siarter, gwefan ac uwchgynhadledd. Mae'r grwpiau lefel sir amlasiantaethol 'Creu Newid Gyda'n Gilydd yn ...' yn parhau i ddigwydd, sef gofod sy'n hwyluso gwybodaeth / rhannu adnoddau a chyfleoedd rhwydweithio.

Cam Gweithredu: Y Tîm Partneriaethau i rannu cyflwyniad y Model Cymdeithasol ar gyfer lechyd a Lles gyda'r grŵp.

**Cysylltwch â'r Tîm Partneriaethau os oes angen copi arall arnoch.*

12.7 Diweddariadau Partner ac Unrhyw Fusnes Arall

Nododd Chesca Ross (ChR) fod CAVO wedi dyrannu symiau bychan ar gyfer ariannu prosiectau a sefydlwyd eisoes yn Llanbedr Pont Steffan a fyddai'n elwa o gyllid ychwanegol i ymestyn eu gweithgareddau. Cadarnhaodd ChR y bydd CAVO yn edrych yn benodol ar ffyrdd o gefnogi'r Prosiect Cymunedau Cynaliadwy, a datblygiad y Tîm Peilot Gofal Canolraddol / Aml-Asiantaethol (AA) yn ardal Llambod.

Dywedodd Iwan Davies (ID) fod Ceredigion bellach wedi cael ei derbyn gan Sefydliad Iechyd y Byd (SIB) i fod yn rhan o Rwydwaith Cymunedau Oed-gyfeillgar y DU.

Esboniodd Terri-Ann Patrick (TAP) fod y cyfarfodydd AA yn mynd yn eu blaen yn dda. Cynhelir y cyfarfodydd yn wythnosol, ac maent yn canolbwyntio ar y rhai sydd mewn perygl o ddirywio. Y bwriad yw gwella'r mynediad at wasanaethau yn ardal Llanbedr Pont Steffan a Llanybydder.

Cadarnhaodd Catrin Owen (CO) fod datblygiad tai newydd ar y gweill yn Llanbedr Pont Steffan, ac y bydd y broses o gofrestru ar gyfer yr eiddo hyn yn cychwyn yn fuan. Mae Canolfan y Creuddyn yn darparu unedau ar gyfer busnesau newydd neu gyfleoedd datblygu ar gyfer busnesau sy'n bodoli eisoes – Ar hyn o bryd mae 2 uned fusnes ar gael i'w rhentu.

Dywedodd DJ wrth y grŵp bod ymgyngoriad ar agor ar hyn o bryd ynghylch fframwaith statudol newydd ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru.

Cam Gweithredu: Y Tîm Partneriaethau i rannu'r fframwaith statudol newydd ar gyfer ymgyngoriad gwaith ieuenctid yng Nghymru gyda'r grŵp.

Nododd Mererid Lewis (ML) fod Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru (RhCGC) yn medru darparu arweiniad ar ymgysylltu a chyfranogiad, ac wrth symud ymlaen, byddant yn cefnogi'r DSC gyda'i gwaith ar Bwysau Iach, ac yn cynghori'r Grŵp Llywio'r Prosiect Ieuenctid ar amrywiol ddulliau ymgyngori.

Dywedodd Greg Jones (GJ) fod y Ganolfan Llesiant bellach yn weithredol ers blwyddyn. Bydd y Ganolfan nawr yn ystyried darparu mwy o gyfleoedd sesiwn galw heibio i asiantaethau, ac yn edrych ar wahanol ddulliau o ran defnydd o'r cyfleuster.

Dywedodd ABM wrth y grŵp y cynhelir digwyddiad Gaeaf Cynnes yn Llanbedr Pont Steffan ar 26 Hydref rhwng 2-8pm.

Nododd RhR fod sgysiau wedi'u cynnal gyda TAP a'r Cysylltwyr Cymunedol ynghylch y Celfyddydau ac Iechyd. Mae cyllid wedi'i sicrhau'n llwyddiannus i gynnal 2 raglen wyth wythnos sy'n targedu unigolion a nodwyd gan y AA. Bydd y rhaglenni'n rhoi cyfle i unigolion gymryd rhan mewn gweithgareddau celf sy'n hyrwyddo lles cyfannol.

Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am eu hamser a daeth â'r cyfarfod i ben.

12.8 Dyddiad y cyfarfod nesaf: 30 Ionawr 2025 am 10:00-12:00

Crynodeb o'r gweithredoedd:

1.)	Parhau: Gwahodd Rob Starr i gyfarfod yn y dyfodol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am Adroddiad Tlodi ac Amddifadedd Llambod.
2.)	Parhau: Vikki Butler a Geinor Jones i drafod cyfleoedd i CPNW gefnogi ymgysylltu a chyfranogiad.
3.)	Parhau: Dyddiadau Sioe Iechyd a Llesiant Llanbedr Pont Steffan 2024 i'w rhannu gyda'r grŵp unwaith y cadarnhawyd.
4.)	Gwahodd Ann Owen i'r cyfarfod nesaf i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y Bartneriaeth Bwyd Lleol.
5.)	Cynnwys Lefel Isel o Gymorth Iechyd i Bobl Ifanc Trawsryweddol fel eitem ar yr Agenda yng nghyfarfod nesaf y Fforwm Darparwyr Plant a Phobl Ifanc.
6.)	Y Tîm Partneriaethau i rannu cyflwyniad y Model Cymdeithasol ar gyfer Iechyd a Lles gyda'r grŵp.
7.)	Y Tîm Partneriaethau i rannu'r fframwaith statudol newydd ar gyfer ymgynghoriad gwaith ieuencid yng Nghymru gyda'r grŵp.